OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3054

# Gorchymyn Fferm Wynt ar y Môr Cefnenni Tywod Scarweather 2004

## RHAN III

## CAFFAEL A MEDDU AR DIR

*Pwerau caffael*

**Y pŵer i gaffael hawliau newydd**

**20.**—(1) Caiff yr ymgymerwr gaffael yn orfodol yr hawddfreintiau hynny neu hawliau eraill dros unrhyw dir y cyfeirir ato yn erthygl 18 sydd eu hangen at unrhyw ddiben y caiff y tir hwnnw ei gaffael o'r herwydd o dan y ddarpariaeth honno, a hynny drwy eu creu yn ogystal â thrwy gaffael hawddfreintiau neu hawliau eraill sydd eisoes yn bod.

(2) Caiff yr ymgymerwr gaffael yn orfodol yr hawddfreintiau hynny neu unrhyw hawliau eraill dros y tir a ddangosir â Rhif au 1 i 3, 5 i 9 ac 11 ar blaniau'r tir ac a ddisgrifir yn y cyfeirlyfr ("y tir perthnasol") y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer ac mewn cysylltiad ag adeiladu, defnyddio, gweithredu a chynnal a chadw Gwaith Rhif 2, 2A, 4 a 5.

(3) Caiff yr ymgymerwr gaffael yn orfodol yr hawddfreintiau hynny, neu'r hawliau i ddefnyddio'r strydoedd a ddangosir â Rhif au 12 i 16 ar blaniau'r tir ac a ddisgrifir yn y cyfeirlyfr, y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cael mynediad at y tir at ddibenion adeiladu, defnyddio, gweithredu a chynnal a chadw y gweithfeydd awdurdodedig.

(4) Mae'r hawddfreintiau neu'r hawliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) yn hawliau i ddefnyddio'r strydoedd y cyfeirir atynt yn y paragraff hwnnw sydd ar y cyd ag unrhyw bersonau eraill sydd â'r hawl i ddefnyddio'r strydoedd; ac ni ddylid dehongli dim yn yr erthygl hon fel pe bai'n rhoi'r hawl i ymyrryd â defnydd personau eraill o'r strydoedd.

(5) Yn ddarostyngedig i adran 8 o Ddeddf 1965 (fel y'i hamnewidir gan baragraff 5 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn), pan fo'r ymgymerwr yn caffael hawl dros dir o dan yr erthygl hon, nid yw'n ofynnol i'r ymgymerwr gaffael buddiant mwy ynddo.

(6) Mae Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn effeithiol at ddibenion addasu'r deddfiadau sy'n ymwneud ag iawndal a darpariaethau Deddf 1965, o ran eu cymhwyso mewn perthynas â chaffael hawl dros dir yn orfodol o dan yr erthygl hon drwy greu hawl newydd.